**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Mawrth 2020 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 74. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball a Miss S. L. Roberts.

## 75. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – IONAWR 2019

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 735 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 2,550.00 | Ffi Rheoli CC Tynewydd 19/20 Taliad 4 o 4 |
| 939 | HSBC | 13.04 | Taliadau Banc 17 Rhagfyr 2019 hyd at 16 Ionawr 2020 |
| 943 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Ionawr 2020 |
| 942 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,142.52 | Cyflogau staff Cyngor Tref y Rhyl Chwefror 2020 |
| 941 | CThEM | 2,743.11 | Didyniadau PAYE Chwefror 2020 |
| 940 | Cyngor Sir y Fflint | 4,290.48 | Cyfraniadau Pensiwn ac ariannu diffyg Ionawr 2020 |
| 723 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apelio Rhan-amser 19/20 Taliad 10 0 12 |
| 951 | Canda | 350.70 | Rhentu llungopïwr a chopïau du a gwyn |
| 952 | Canda | 330.91 | Copïau lliw |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£19,777.43** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Llog a dderbyniwyd | Cyfrif Rhybudd 31 Diwrnod Santander | 41.40 |
| Llog a dderbyniwyd | HSBC 7 Day Money Market | 28.78 |
| Llog a dderbyniwyd | HSBC 7 Day Money Market | 33.38 |
| Llog a dderbyniwyd | HSBC 7 Day Money Market | 33.96 |
| Llog a dderbyniwyd | HSBC 7 Day Money Market | 33.96 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£171.48** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 76. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Talen | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 953 | Flying Colours Entertainment Ltd | Cerddwyr stiltiau Digwyddiad Dydd Gwyl Dewi 29/02/20 | 882.00 |
| 954 | TAPE | Ghostbuskers ar gyfer digwyddiadau Dydd Santes Dwynwen a Dewi Sant | 250.00 |
| 955 | BJS Solutions | Adnewyddu gwrth-firws 5 defnyddiwr | 179.94 |
| | | **Cyfanswm** | **£1,311.94** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 77. EITEM GAN AELOD: CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR TREF

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr eitem hon yn ymddangos am y trydydd gwaith ar raglen y Cyngor a'r rhaglen hon ac at absenoldeb y Cynghorydd J. Ball.

Awgrymodd aelod bod yr eitem yn cael ei thynnu'n ôl.

***PENDERFYNWYD*** *tynnu'r eitem yn ôl.*

78. **EITEM GAN AELOD: YMATEB I BRIF SWYDDOG GWEITHREDOL CYNGOR SIR DDINBYCH**

Gofynnodd y Cynghorydd A. R. James am farn yr aelodau ar ymateb i ebost roeddynt wedi ei dderbyn gan Ms Greenhalgh (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar ôl iddi fynychu cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 5ed Chwefror 2020.

Roedd gan yr aelodau deimladau cymysg ynglŷn â chywair cyffredinol y cyfarfod diwethaf. Roedd rhai yn credu nad oedd unrhyw amarch wedi ei ddangos tuag at Ms Greenhalgh a Ms Kneale, nac unrhyw swyddog arall o Sir Ddinbych sydd erioed wedi mynychu cyfarfod y Cyngor Tref. Bod y farn a fynegwyd yn gwbl gymesur o ystyried cryfder teimlad yr aelodau mewn perthynas â ffigurau diweddaraf Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru (WIMD), a ddylid efallai fod wedi ei ddisgwyl gan y swyddogion?

Teimlai aelod arall bod rhai wedi gorymateb i'r ffigurau pan roedd cyd-destun wedi ei roi gan y swyddogion.

Roedd consensws fodd bynnag bod y Cyngor Tref yn benderfynol o weithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i ddelio â lefelau amddifadiad ledled y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn drafftio ymateb i'r aelodau ei gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.*

79. **EITEM WYBODAETH GAN AELOD: CYNLLUN EFFEITHLONRWYDD YNNI ARBED 3**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn ebost gan Arbed am Byth sy'n rheoli'r cynllun uchod ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun yn cynnig mesurau arbed ynni am ddim i ddeiliaid tai cymwys mewn rhannau o wardiau Bryn Hedydd, Cefndy, Pendyffryn, Plastirion a Thynewydd, gyda sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal yng Nghlwb Rygbi'r Rhyl ar 5ed Mawrth rhwng 2pm-6pm ac yn y Ganolfan Hamdden ar 6ed Mawrth rhwng 2pm-6pm.

80. **EITEM WYBODAETH GAN AELOD: EISTEDDFOD YR URDD**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn ebost gan y trefnwyr yn gofyn am wirfoddolwyr i helpu siwardio sesiynau rhwng 25ain – 30ain Mai 2020.

Cytunwyd y byddai unrhyw aelod a allai helpu yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r trefnwyr.

81. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 82. <u>AROLWG RISG BLYNYDDOL 2019 A CHYNLLUN AT Y DYFODOL 2020/21</u>

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad cyfrinachol yr Is-bwyllgor Asesu Risg (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn amlinellu'r gwaith a wnaed ganddo drwy gydol 2019/20 a'r cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Diolchodd yr Aelodau i'r Is-bwyllgor Asesu Risg am y gwaith arwyddocaol a wnaed ar ran y cyngor.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r adroddiad a'r cynllun at y dyfodol.*

## 83. <u>TERFYNU'R CYFARFOD</u>

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………